Adroddiad ar

Little Stars (Deeside) Ltd

Uned 69 Third Avenue
Parth 2
Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 2LA

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Little Stars (Deeside) Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Little Stars (Deeside) Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ellen Lynn Lloyd-Wilson |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ellen Lynn Lloyd-Wilson |
| Person â gofal | Rebecca Medenica |
| Nifer y lleoedd | 75 |
| Ystod oedran y plant | 3 mis – 8 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 25 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 16 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7:30am – 6pm (dydd Llun – dydd Gwener) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Oes |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Tachwedd 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Chwefror 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01 - 02/07/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn**.

## Argymhellion

A1. Parhau i adeiladu ar gynnydd trwy ymwreiddio gwelliannau a chynnal ffocws clir ar flaenoriaethau allweddol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â sut mae arweinwyr yn cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae gan blant lais cryf sy'n dylanwadu ar eu profiadau bob dydd yn y lleoliad ac yn eu galluogi i ddangos eu hannibyniaeth a'u medrau gwneud penderfyniadau yn effeithiol. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus, fel dewis eu byrbryd neu benderfynu p'un a ydynt am chwarae dan do neu'r tu allan. Mae bron pob un o'r plant yn mynd ati i archwilio'u hamgylchedd, gan ddangos diddordeb a chwilfrydedd. Maent yn mynegi eu hunain yn eithriadol o dda, ar lafar ac yn ddieiriau. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwybod bod ymarferwyr a'u cyfoedion yn gwrando arnynt. O ganlyniad, mae plant yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhyngweithiadau ansawdd uchel a phwrpasol.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n eithriadol o dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn datblygu perthnasoedd gwresog ac agos â'i gilydd a gydag ymarferwyr. Mae bron pob un o'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd yn hyderus, gan ymgysylltu â rhyngweithiadau ystyrlon a phwrpasol. Er enghraifft, maent yn mwynhau edrych ar ffotograffau o'u teuluoedd a dangos aelodau cyfarwydd o'u teulu, gan ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn a hunaniaeth. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn dda. Maent yn gwybod beth yw trefn a strwythurau'r diwrnod ac yn eu dilyn yn hyderus. Maent yn dangos moesau da ac yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol ac yn symud yn hyderus rhwng gweithgareddau a'r amgylchedd. Mae plant iau yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd fel sy'n briodol i'w hoedran neu'u cyfnod datblygu. Mae plant hŷn yn rhannu adnoddau'n effeithiol ac yn dangos parch at ei gilydd wrth chwarae rôl yn 'gwerthu' hufen iâ a thra'n chwarae parasiwt.

Mae bron pob un o'r plant yn brysur ac yn hapus wrth iddynt chwarae. Maent yn ymuno ag amrywiaeth o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored â chwilfrydedd a brwdfrydedd. Maent yn mwynhau profiadau synhwyraidd, fel archwilio gweadau ac arogleuon gyda thoes chwarae, ac yn ymfalchïo mewn tasgau creadigol fel cymysgu paent i addurno cwch a adeiladwyd ganddynt o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae plant iau yn dal ati i ganolbwyntio yn ystod chwarae anniben yn yr awyr agored, ac yn archwilio gwahanol ddeunyddiau yn hyderus wrth iddynt chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn dod yn gynyddol annibynnol o ran rheoli eu hunanofal. Maent yn helpu tacluso, yn sychu eu trwynau, ac yn bwydo'u hunain yn annibynnol adeg prydau bwyd. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo ac yn brwsio'u dannedd yn hyderus. Mae plant iau yn derbyn cymorth priodol, pan fydd angen, i'w helpu i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd. Mae llawer o blant yn cymryd gofal o'u heiddo, yn tacluso'u

platiau pan fyddant yn gorffen eu prydau bwyd ac yn gwthio'u cadeiriau o dan y bwrdd yn fedrus.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau wrth iddynt symud ymlaen trwy'r lleoliad. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf ag oedolion y maent yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n ddiogel o'u cwmpas. Mae hyn yn eu cynorthwyo i deimlo'n ddiogel i fynegi eu hanghenion a rhannu eu hemosiynau. Mae'r perthnasoedd cryf hyn yn cynorthwyo plant i reoli eu hemosiynau'n briodol a meithrin cysylltiadau cymdeithasol cadarn.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau iaith yn eithriadol o dda ac yn cyfathrebu'n hynod effeithiol gan ddefnyddio geirfa eang a helaeth. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb i ymarferwyr a'u cyfoedion yn briodol yn ystod chwarae gan ddangos medrau rhyngweithio cryf. Maent yn gyfathrebwyr hyderus sy'n gofyn ac yn ymateb i gwestiynau yn naturiol o fewn eu chwarae. Mae llawer o blant yn defnyddio canu'n hyderus wrth ganu caneuon a rhigymau. Mae bron pob un o'r plant yn dangos dealltwriaeth glir o arferion dyddiol ac yn ymateb yn brydlon i giwiau cyfarwydd. Er enghraifft, pan mae'r gloch yn canu i nodi ei bod yn amser tacluso, maent yn rhoi'r gorau i chwarae ac yn gweithio gyda'i gilydd i roi eu heitemau chwarae o'r neilltu. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu synnwyr cryf o gyfrifoldeb a sut maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno i ganu caneuon Cymraeg cyfarwydd, ac mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth addas ac yn ymateb yn briodol i ymadroddion Cymraeg a glywant yn aml.

Mae llawer o blant yn dewis llyfrau yn annibynnol ac yn dangos mwynhad clir wrth ddarllen ar eu pen eu hunain neu gydag oedolyn. Maent yn aml yn dewis storïau cyfarwydd, fel storïau am ddeinosoriaid, ac yn mynd ati i ymgysylltu trwy bwyntio at luniau a gwrando'n astud. Wrth rannu storïau, mae plant yn dangos diddordeb a mwynhad diffuant, gan roi sylwadau'n ystyriol ar luniau, er enghraifft sylwi ar lygaid mawr y tylluanod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos hyder cynyddol wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn creu marciau yn bwrpasol, gan ysgrifennu'n aml am resymau bywyd go iawn o fewn eu chwarae, fel ysgrifennu nodyn at riant.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geirfa fathemategol eang yn naturiol trwy gydol eu chwarae, er enghraifft wrth lenwi a gwagio cynwysyddion i greu diod hud yn y gegin fwd. Maent yn dangos medrau datrys problemau cryf wrth weithio gyda'i gilydd i gyflawni nod a ddewiswyd ar y cyd, fel didoli ffyn lolipop yn ôl eu lliw mewn hambwrdd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cefnogi ei gilydd, yn dangos dyfalbarhad a mwynhad, ac yn annog plant eraill i

ymuno. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cydweithredol a chynhwysol lle mae plant yn teimlo'n hyderus i fentro.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos medrau corfforol a chreadigol cryf wrth iddynt gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n hyrwyddo rheolaeth, cydsymud, a meddwl dychmygus. Maent yn mentro'n rhesymol yn yr awyr agored, er enghraifft dringo rhwystrau a cherdded ar draws y trawst balans. Maent yn hapus i ofyn am gymorth gan eu cyfoedion pan fyddant yn ansicr am y risg, ac wedyn rhoi cynnig arall arni. Maent yn defnyddio offer gyda manwl gywirdeb wrth drin toes, er enghraifft i greu cacennau pen-blwydd, lle maent yn rholio, yn pwyso ac yn gosod ffyn i mewn i'r does yn hyderus i gynrychioli canhwyllau. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau motor manwl yn dda, er enghraifft trwy ddefnyddio gefeiliau â'r bys blaen a'r bawd i drin gwrthrychau bach. Maent yn dangos creadigrwydd rhagorol wrth drefnu gwrthrychau i greu collages sgerbwd.

Mae bron pob un o'r plant yn chwarae'n gydweithredol ac yn bwrpasol. Er enghraifft, wrth archwilio sut mae ffigurau tegan yn symud i lawr rampiau, maent yn arsylwi'n ofalus sut mae gwahanol arwynebau yn effeithio ar y ffordd y mae'r ffigurau'n syrthio. Maent yn rhannu syniadau ac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd yn llwyddiannus wrth iddynt weithio gyda'i gilydd i adeiladu trac hir i geir deithio i lawr. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau datrys problemau a chydweithio.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn ymroddgar, yn broffesiynol ac yn angerddol yn eu rolau. Maent yn rhyngweithio â phlant mewn modd eithriadol o ofalgar, gwresog a thyner, gan greu awyrgylch cadarnhaol, tawel a hapus. Mae ymarferwyr yn dangos parch ar y ddwy ochr, gan fodelu ymddygiadau cadarnhaol yn effeithiol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn ymgysylltu'n bwrpasol i gefnogi eu datblygiad. Mae ymarferwyr yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn rhyngweithio â phlant yn gadarnhaol ac yn cynnig canmoliaeth ystyrlon i atgyfnerthu ymddygiad da. Maent yn defnyddio dulliau atgoffa tyner, er enghraifft gofyn i blant ddefnyddio 'dwylo caredig', ac yn cymhwyso technegau tarfu yn fedrus, pan fydd angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn eithriadol o dda.

Mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach yn gyson dda. Maent yn sicrhau bod staffio cywir ar gael i oruchwylio plant yn ddiogel. Mae gan y lleoliad gofnodion clir ac effeithiol i gofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddaru'n gyson. Mae ymarferwyr yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng wrth iddynt ymarfer a chofnodi ymarferion rheolaidd gwacáu mewn tân. Mae arweinwyr yn darparu ystod helaeth o brydau bwyd a byrbrydau iach ar gyfer plant, gan gynnwys llaeth neu ddŵr i'w yfed. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gynorthwyo plant ag alergeddau ac

anghenion dietegol ac yn datblygu bwydlenni unigol, sy'n cael eu dilyn yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn annog hylendid deintyddol da ymhlith pob un o'r plant. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn diwallu anghenion plant yn hynod lwyddiannus, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adnabod os gall plant fod ag angen ychwanegol neu angen sy'n dod i'r amlwg, ac mae ganddynt systemau sefydledig ar waith i'w cefnogi. Maent yn defnyddio proffiliau un dudalen ac mae ganddynt daflenni gwybodaeth unigol, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl i ymarferwyr am ddiddordebau, hoffterau a chasbethau plant. Maent yn blaenoriaethu parodrwydd datblygiadol dros oedran. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn meithrin lles emosiynol plant yn eithriadol o dda. Mae'r system hynod effeithiol hon yn eu grymuso i gefnogi a meithrin pob plentyn yn llwyddiannus. Mae proses bontio strwythuredig ac effeithiol ar waith ar gyfer plant sy'n symud ystafelloedd o fewn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys ymweld ag ystafelloedd a rhannu gwybodaeth gyda rhieni. Mae hyn yn helpu sicrhau cyfnodau pontio esmwyth a llwyddiannus o fewn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn hynod ymatebol wrth gefnogi plant yn eu chwarae. Maent yn ymestyn meddwl plant trwy annog archwilio, cyflwyno geirfa newydd, a gofyn cwestiynau pwrpasol. Maent yn defnyddio caneuon yn ystod amseroedd pontio wrth i blant symud o un gweithgaredd neu ardal i'r nesaf, gan helpu creu trefn bwyllog a chyfarwydd sy'n cefnogi hyder a chydweithrediad plant. Maent yn gweithredu amser cylch yn llwyddiannus ac yn cynnwys llawer o elfennau dwyieithog sy'n cefnogi ymgysylltiad a datblygiad iaith plant yn dda. Mae ymarferwyr wedi'u cymell ac yn ymgysylltu â phlant yn eithriadol o dda i hyrwyddo'u datblygiad cyffredinol, gan wybod pryd i gamu'n ôl neu gynnig cymorth, os oes angen.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau o safbwynt arwain gan y plentyn. Maent yn adolygu eu harsylwadau o chwarae plant i addasu'r ddarpariaeth i adlewyrchu eu hanghenion a'u datblygiad. Mae llawer o weithgareddau'n gwneud defnydd dychmygus o ystod eang o adnoddau o fewn yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu, darnau rhydd a chwarae anniben i annog archwilio synhwyraidd, ac yn darparu ystod o weithgareddau creadigol a chreu marciau gwerthfawr. Mae'r profiadau hyn yn tanio chwilfrydedd plant ac yn datblygu eu meddwl creadigol yn eithriadol o dda.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plentyn, sy'n sail i'w harferion addysgu ac asesu hynod effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd yn effeithiol rhwng dysgu wedi'i arwain gan oedolyn a dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn. Mae eu cynllunio yn drylwyr ac yn fyfyriol, wedi'i lywio gan arsylwadau o ansawdd uchel o chwarae plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio'u gwybodaeth am ddiddordebau presennol plant yn fedrus i addasu'r profiadau dysgu a gynigir. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant wedi ymgysylltu, wedi eu cymell, ac yn gallu creu cysylltiadau ystyrlon yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol sy'n meithrin perthnasoedd parchus a chydweithredol, gan greu amgylchedd anogol a chynhwysol i blant chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod plant yn derbyn parhad o ofal a sicrwydd emosiynol. Caiff hyn effaith fuddiol ar les a datblygiad cymdeithasol plant, gan eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn werthfawr, ac yn barod i archwilio a dysgu o fewn amgylchedd cyson a gofalgar.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn effeithiol. Maent yn defnyddio arwyddion dwyieithog a llyfrau stori Cymraeg i gefnogi adnabyddiaeth gynnar, tra bod arferion dyddiol yn ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol, sy'n helpu atgyfnerthu iaith trwy ailadrodd a threfn. Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd yn dda trwy gynnwys gair Cymraeg y mis yn y cylchlythyr, gydag arweiniad ffonetig i gynorthwyo rhieni.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau cyfathrebu plant yn hynod effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio iaith arwyddion, sy'n cefnogi datblygiad medrau cyfathrebu cynnar plant yn dda. Mae ymarferwyr yn meithrin medrau ysgrifennu cynnar plant trwy weithgareddau sydd wedi'u strwythuro'n ystyriol. Er enghraifft, maent yn gadael offer marcio a phapur yn fwriadol ar glipfyrddau yn yr ardal adeiladu i annog plant i greu marciau yn ystod chwarae. Mae llyfrau ar gael yn rhwydd ar draws y ddarpariaeth i gefnogi medrau iaith a llythrennedd, gan gynnwys llyfrau stori thema mewn gwahanol ardaloedd fel llyfrau dan y thema adeiladu yn yr ardal adeiladu, llyfrau dan y thema ysbyty yn y feddygfa, a llyfrau coginio yn yr ardal gartref. Maent yn rhannu storïau yn ystod adegau dan arweiniad y plentyn, ac yn arwain sesiynau grŵp difyr i ddyfnhau'r dysgu.

Mae ymarferwyr yn dechrau cyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau digidol, fel ymgorffori clorian yn y gegin fwd a darparu ffonau tegan ar gyfer chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn ymestyn iaith fathemategol plant yn fedrus trwy ystod o brofiadau cyfoethog a phwrpasol, lle maent yn modelu iaith fathemategol benodol wrth i blant chwarae. Maent yn darparu ystod eang o adnoddau difyr i ddatblygu medrau mathemategol plant yn effeithiol ar draws y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau iaith, arsylwi a synhwyraidd plant yn effeithiol trwy brofiadau dilys yn yr awyr agored sy'n ysbrydoli parchedig ofn a rhyfeddod. Er enghraifft, mae gwesty chwilod gyda chwyddwydrau, potiau, a llyfrau yn annog plant i archwilio, gofyn cwestiynau a defnyddio geirfa newydd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o'u harsylwadau a'u hasesiadau yn effeithiol i lywio cynllunio a chefnogi cynnydd plant. Maent yn gwneud arsylwadau rheolaidd, sy'n ddefnyddiol a chynhwysfawr ac yn gwneud addasiadau ystyriol i'r ddarpariaeth i ymateb i hynny. Er enghraifft, pan fydd ymarferwyr yn sylwi bod plant yn defnyddio termau fel 'mawr' ('big') a 'bach' ('small') yn hyderus i ddisgrifio cynwysyddion, maent yn ymestyn y ddarpariaeth ag ystod ehangach o gynwysyddion i ymestyn geirfa'r plant i gynnwys termau fel 'llawn' ('full') a 'gwag' ('empty'). Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gosod targedau clir a realistig ar gyfer plant ac yn monitro'u cynnydd yn agos trwy arsylwadau parhaus a chofnodion datblygiadol manwl. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth bwysig am gynnydd plant gyda rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall cynnydd, cryfderau a meysydd i'w datblygu eu plentyn. Mae hefyd yn eu cynorthwyo i atgyfnerthu dysgu gartref a pharhau i ymwneud â datblygiad eu plentyn.

## Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored yn eithriadol o ddiogel a saff. Mae ganddynt weithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i sicrhau bod pob un o'r staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau. Maent yn rhoi asesiadau risg hynod effeithiol a chynhwysfawr ar waith ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn cymryd camau prydlon i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi oherwydd gwiriadau diogelwch. Maent yn dilyn gweithdrefnau cadarn yn gysylltiedig ag ymwelwyr sy'n cael mynediad i'r lleoliad. Mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda phlant, fel bod pawb yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r safle'n eithriadol o lân ac yn cael ei gynnal i safon uchel iawn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, fel glanhau byrddau a golchi dwylo yn rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau cadarn hyn yn sicrhau bod risgiau'n cael eu lleihau i'r eithaf.

Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog hynod effeithiol, sy'n olau, yn braf, yn cael digon o aer, ac yn eang ar gyfer pob oedran. Mae ffenestri mewnol rhwng ystafelloedd yn hyrwyddo ymdeimlad o natur agored ac yn cefnogi'r ymgysylltiad o fewn y lleoliad. Mae pwyslais ar ddodrefn niwtral ac adnoddau o ansawdd uchel, ac fe gaiff cerddoriaeth leddfol ei chwarae ar lefel isel ar draws y feithrinfa. Mae hyn yn cefnogi awyrgylch tawel i blant ddysgu a chwarae. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth feddylgar i ansawdd yr adnoddau a'r effaith a gaiff hyn ar hyrwyddo chwilfrydedd ac archwilio plant. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau sy'n adlewyrchu'r amgylchedd naturiol ac yn cynnwys eitemau 'bywyd go iawn' yn y gornel gartref a'r ardaloedd cegin fwd y tu allan. Mae'r adnoddau hyn yn helpu tanio chwilfrydedd plant ac yn eu hannog i ymchwilio

ymhellach. Mae'r amgylchedd hynod alluogol hwn yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu ar gyfer plant ar draws y feithrinfa, sy'n cefnogi datblygiad medrau plant yn eithriadol o dda.

Mae arweinwyr yn darparu dodrefn ac offer ar gyfer plant o faint sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu, ac fe gaiff yr holl adnoddau eu harddangos ar lefel isel, sy'n galluogi plant i fod yn annibynnol wrth chwarae. Mae toiledau yn hygyrch, gan alluogi plant i gynyddu eu hannibyniaeth, ac mae darpariaeth newid clytiau yn galluogi i arferion effeithiol ac effeithlon gael eu cwblhau.

Mae arweinwyr yn darparu ardaloedd dynodedig i blant storio'u heiddo personol ac yn arddangos gwaith celf a phrofiadau plant yn ddeniadol ar draws y lleoliad. Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau chwarae i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant, eu treftadaeth Gymreig a'u gwybodaeth am amrywiaeth yn dda. Er enghraifft, mae arweinwyr yn darparu ystod o adnoddau fel gemwaith traddodiadol ac offerynnau yn gysylltiedig ag Affrica, ochr yn ochr â gwisgo i fyny, llyfrau a phosau sy'n adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o'r byd yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth yn y lleoliad yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr yn disgrifio gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus ac yn meithrin ethos cryf o barch, cydweithio, a disgwyliadau uchel. Maent yn wybodus a diwyd, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r lleoliad. Mae systemau cadarn yn sail i hyn, sy'n sicrhau bod y lleoliad yn gweithredu'n esmwyth ac yn ddiogel bob dydd. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn darparu darlun cywir o'r lleoliad, gan helpu rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus am ei addasrwydd i'w plentyn.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad a strwythur clir. Maent yn sicrhau bod gan staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, sy'n cael eu cyfleu'n effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau ymagwedd gyson at gynllunio, arsylwadau o chwarae plant, a bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith ar draws y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn gweithio'n hyderus ac yn gydlynol. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd tawel a phwrpasol lle mae ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith, a bod staff newydd yn cael eu cefnogi'n dda trwy ymsefydlu a hyfforddiant. Mae arweinwyr yn ymgorffori arfarnu a goruchwylio yn niwylliant y lleoliad, gydag adolygiadau blynyddol a chymorth ychwanegol, lle bo'n briodol. Maent yn trefnu cyfarfodydd staff rheolaidd, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer myfyrio a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'r dull

cynhwysol hwn yn sicrhau bod pob un o’r staff yn cyfrannu’n ystyrlon at gynllunio gwelliant.

Mae arweinwyr wedi datblygu system sefydledig sy’n sicrhau eglurder, cysondeb, a dealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau, arferion ac ymagweddau at gefnogi dysgu’r plant ymhlith pob un o’r ymarferwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthchweil i ymarferwyr ddatblygu yn eu rolau trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol. Mae staff profiadol yn modelu arfer o ansawdd uchel i’w cydweithwyr, sy’n cefnogi datblygiad aelodau newyddach o’r tîm yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gweithio’n agos gydag athrawon ymgynghorol i sicrhau bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu’n effeithiol. Mae’r diwylliant cydweithredol hwn yn hyrwyddo cysondeb ac yn cyfrannu at y ddarpariaeth o ansawdd uchel ar draws y lleoliad.

Mae arweinwyr wedi sefydlu system hunanwerthuso fyfyriol hynod effeithiol, sy’n defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau’r awdurdod lleol, adborth rhanddeiliaid, ac arsylwadau a dysgu gan leoliadau eraill sy’n perfformio’n dda. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth amrywiol i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella, gan arwain cynllunio effeithiol a chynnydd parhaus. Maent yn gwneud defnydd hynod effeithiol o gyllid sydd ar gael, gan gynnwys grantiau a rhoddion cymunedol, i wella’r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, ar ôl ymweliadau â lleoliadau eraill, ac arsylwi proses o gynllunio cegin fwd gan ddefnyddio eitemau go iawn fel perlysiau, llysiau, micro-don a thegell, maent yn creu ardal debyg i gefnogi chwarae dychmygus plant. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o ddulliau gwerthusol i lywio cynllunio a gwneud penderfyniadau. Maent yn cynnwys staff a rhanddeiliaid yn y broses, gan feithrin synnwyr cryf o berchnogaeth ar y cyd. Mae arweinwyr yn adolygu ac addasu cynlluniau’n rheolaidd i sicrhau bod blaenoriaethau gwella a chynllunio yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol. Mae partneriaethau’r lleoliad â rhieni a gofalwyr yn gryf. Mae arweinwyr yn gwahodd rhieni i gyfarfodydd cynnydd a digwyddiadau pwysig fel diwrnod chwaraeon, graddio, a sesiynau gwybodaeth am y cwricwlwm. Mae’r cyfleoedd ystyrlon hyn yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hysbysu’n dda ac yn cael eu cynnwys yn weithredol yn nysgu eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2025